**MEMORANDWM ESBONIADOL ar gyfer**

# Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) (Rhif 2) 2016

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad Y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) (Rhif 2) 2016.

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

23 Chwefror 2016

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) (Rhif 2) 2016 (‘y Gorchymyn’) yn diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (‘y Mesur’) sy'n nodi (i) y sefydliadau (cyfeiri’r atynt fel personau yn y Mesur) sy’n agored i orfod cydymffurfio â safonau’r Gymraeg a (ii) pa gategorïau o safonau sy’n gymwysadwy i bob sefydliad.

1.2 Mae'r Gorchymyn yn ymdrin â newidiadau megis cynnwys sefydliadau newydd, a hepgor sefydliadau eraill, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi digwydd ers i'r Mesur gael ei wneud.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

2.1 Mae'n debygol y caiff gorchymyn i ddiwygio Atodlen 6 i'r Mesur (‘Atodlen 6’) ei wneud o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu newidiadau i enwau neu statws sefydliadau, i ddileu sefydliadau nad ydynt yn bodoli bellach, neu mewnosod sefydliadau newydd, er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael gwneud safonau sy’n benodol gymwys iddynt.

2.2 Fel y nodir ym mharagraff 3.1 isod, gall Gweinidogion Cymru ond diwygio Atodlen 6 i gynnwys sefydliad (neu gategori o sefydliadau) os yw’r sefydliad (neu gategori o sefydliadau) yn dod o fewn un neu fwy o'r categorïau yn Atodlen 5 i'r Mesur. Er tryloywder, mae'r tabl isod yn dangos, o ran sefydliadau ym mharagraff 1 a 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn, ym mha gategori Atodlen 5 y maent yn cwympo iddo, ym marn Gweinidogion Cymru. Os yw’n bosibl bod y sefydliad yn dod o fewn mwy nag un categori, dim ond un categori sydd wedi ei nodi.

| **Corff** | **Categori yn Atodlen 5** |
|---|---|
| Corff llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant | Categori (4): Personau y mae swyddogaethau darparu gwasanaeth i'r cyhoedd wedi eu rhoi iddynt neu wedi eu gosod arnynt drwy ddeddfiad. |
| Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig | Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol —<br><br>(a) pan fo’r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol; neu<br>(b) pan fo penderfyniad wedi ei |

| | |
|---|---|
| | wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol. |
| Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol | Categori (2): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad. |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | Categori (2): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad |
| WJEC CBAC Ltd | Categori (5): Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol — <br><br>(a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol; neu<br>(b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol. |

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mae adran 35 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio tabl Atodlen 6 fel bod colofn 1 y tabl yn cynnwys (i) sefydliad sy'n dod o fewn un neu fwy o gategorïau Atodlen 5 neu (ii) categori o sefydliad, lle mae pob un ohonynt yn dod o fewn un neu fwy o gategorïau Atodlen 5.

3.2 Mae adran 38 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio tabl Atodlen 6 fel bod colofn 2 o gofnod sefydliad (neu gategori o sefydliadau) yn cynnwys cyfeiriad at un neu fwy o'r canlynol (i) safonau darparu gwasanaeth, (ii) safonau gwneud polisïau, (iii) safonau gweithredu a (iv) safonau cadw cofnodion.

3.3 Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 6 i'r Mesur drwy;

(a) Mewnosod sefydliadau newydd a phennu dosbarthiadau o safonau yng ngholofn 2 o gofnod pob sefydliad;

(b) Hepgor cofnodion lle bo enwau sefydliadau wedi newid ers i'r Mesur gael ei wneud.

3.4 Mae'r Gorchymyn hwn yn amodol ar gael cymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y weithdrefn gadarnhaol).

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

### Cefndir

4.1 Cadarnhaodd y Mesur statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreuodd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith. Cam allweddol yn y broses o roi effaith i'r Mesur yw pennu safonau ac awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydymffurfio â'r safonau hynny.

### Materion dan sylw

4.2 Mae Atodlen 6 i'r Mesur yn nodi'r sefydliadau a'r categorïau o sefydliadau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau. Ers i'r Mesur gael ei wneud, mae'r Atodlen wedi peidio â bod yn gyfredol. Mae rhai o'r sefydliadau wedi newid eu henwau, ac yn sgil cynnal ymchwiliad i safonau, mae'r Comisiynydd wedi dod i'r casgliad y dylid ei gwneud yn ofynnol i rai sefydliadau, nad oeddent yn flaenorol wedi eu cynnwys yn Atodlen 6 i'r Mesur, ond a oedd yn rhan o'r ymchwiliad i safonau, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn ogystal mae'r Comisiynydd wedi gofyn bod rhai sefydliadau'n cael eu cynnwys yn Atodlen 6 gyda'r bwriad o gynnwys y sefydliadau hynny mewn ymchwiliadau i safonau yn y dyfodol.

4.3 Fel rhan o'r broses o baratoi'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried cais y Comisiynydd i gynnwys y sefydliadau hyn; casgliadau'r ymchwiliad i safonau; ynghyd ag ystyried a yw'r sefydliadau hyn yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5, a pha mor briodol fyddai cynnwys y sefydliad yn Atodlen 6. Mae'r Gorchymyn yn adlewyrchu'r newidiadau hyn.

### Diben

4.4 Bydd y Gorchymyn hwn yn diweddaru'r rhestr o sefydliadau yn Atodlen 6 i adlewyrchu'r newidiadau.

- Mae paragraffau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn yn mewnosod enwau sefydliadau i Atodlen 6 i'r Mesur.

  Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried pob sefydliad a nodir yn y Gorchymyn er mwyn sicrhau eu bod yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5; ac maent yn fodlon eu bod.

- Mae paragraffau 3 a 4 o'r Atodlen i'r Gorchymyn yn hepgor enwau mewn achosion lle mae enw sefydliad wedi newid ers i'r Mesur gael ei wneud.

**Effaith**

4.5 Bydd y Gorchymyn hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru (drwy Reoliadau ar wahân) i wneud safonau yn benodol gymwys i'r sefydliadau neu gategorïau o sefydliadau sy'n cael eu cynnwys ym mharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn. Bydd hynny'n golygu bod y Comisiynydd wedi'i awdurdodi i'w gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau hynny gydymffurfio â safonau.

**Y risg o beidio â gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth**

4.6 Oni bai bod sefydliad sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5 i'r Mesur, hefyd yn cael ei gynnwys yn Atodlen 6, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud safonau'n benodol gymwys iddynt. Bydd hynny'n golygu na fydd y Comisiynydd yn gallu ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â safonau.

4.7 Gallai hynny arwain at sefyllfa lle y gallai'r risgiau canlynol gael eu gwireddu;

- Ni fydd rhan allweddol o'r Mesur yn cael ei gweithredu. Hynny yw, cyflwyno'r gyfundrefn safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i sefydliad gydymffurfio â safonau.
- Mae'n bosibl na fydd sefydliad sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn cael ei gynnwys yn y gyfundrefn safonau newydd.
- Bydd anghysondeb o ran y dyletswyddau a roddir ar sefydliadau sydd yn yr un sector.
- Bydd y cyhoedd yn ansicr pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg. Bydd yr ansicrwydd hwn yn parhau os na chaiff y Gorchymyn hwn ei wneud i ganiatáu i safonau gael eu gwneud yn benodol gymwys i sefydliadau sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5 i'r Mesur.
- Ni fydd sefydliadau sydd â Chynllun Iaith Gymraeg a gyflwynwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn trosglwyddo i'r gyfundrefn safonau.

**5. Ymgynghori**

5.1 Nid yw Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ar y Gorchymyn hwn, gan nad yw'r Gorchymyn yn rhoi unrhyw ddyletswyddau uniongyrchol ar sefydliad. Mae Atodlen 6 i'r Mesur yn nodi'r sefydliadau a'r categorïau o sefydliadau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau. Mae'r broses o'i gwneud yn ofynnol i sefydliad gydymffurfio â safonau yn rhoi nifer o gyfleoedd i sefydliad gymryd rhan yn y broses a chodi unrhyw bryderon sydd ganddo.

5.2 Cyn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad gydymffurfio â safonau, rhaid bodloni nifer o amodau. Nodir yr amodau hynny yn adran 25 o'r Mesur. Un o'r

amodau yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud safonau'n benodol gymwys i'r sefydliad drwy Reoliadau. Yn ogystal â hynny, bydd yn rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio sy'n nodi pa safonau (ynghyd â'r amgylchiadau a'r meysydd perthnasol) y bydd yn rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â nhw. Bydd yr Hysbysiad Cydymffurfio hefyd yn nodi'r ddyddiad y mae'n rhaid i'r sefydliad ddechrau cydymffurfio.

5.3 Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r sefydliad, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori ag ef yn unol ag adran 47 o'r Mesur (oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon bod hynny wedi digwydd eisoes, neu fod y sefydliad wedi cael y cyfle i gyfrannu at ymgynghoriad ar y mater fel rhan o ymchwiliad i safonau).

5.4 Hefyd mae yna weithdrefn glir i sefydliad sydd am herio'r gofynion i gydymffurfio â safon benodol, ar sail a yw'n rhesymol ac yn gymesur iddo wneud hynny. Yn y lle cyntaf, bydd sefydliad yn gallu herio'r Comisiynydd ei hun. Os bydd y sefydliad yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd, mae modd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac wedi hynny i'r Uchel Lys.

5.5 Mae'r sefydliadau a nodir ym mharagraffau 1 a 2 o'r Gorchymyn, a oedd wedi eu cynnwys yn ail a thrydydd Ymchwiliad y Comisiynydd i Safonau, yn ymwybodol o'r broses ar gyfer gwneud safonau, ac yn rhan ohoni.[1] . Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion a ddaeth i law oddi wrth bob un o'r sefydliadau hynny, ochr yn ochr â'i chasgliadau mewn cyfres o adroddiadau ar gyfer Gweinidogion Cymru.

5.6 Mae adran 66(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i adroddiadau'r ymchwiliadau i safonau a baratoir gan y Comisiynydd wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau i bennu safonau a'u gwneud yn benodol gymwys, a sut y dylent arfer y pwerau hynny.  Caiff unrhyw bryderon y mae sefydliad yn eu codi eu hystyried gan Weinidogion Cymru yn ystod y broses hon.

5.7 WJEC CBAC Ltd yw'r sefydliad na chafodd ei gynnwys yn ail a thrydydd ymchwiliad y Comisiynydd. Nid yw'n bosibl ei gwneud yn ofynnol i'r corff hwn gydymffurfio â safonau hyd nes bod yr amodau a nodir yn adran 25 o'r Mesur yn cael eu bodloni, a bod ymgynghoriad ar yr hysbysiad cydymffurfio wedi ei gynnal (yn unol ag adran 47).

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Ni ystyrir bod angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen) (Rhif 2) 2016, gan nad yw'n gosod costau uniongyrchol, ac mai rhan o ddiweddaru Mesur 2011 ydyw.

---

[1] Corff llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant, Coleg Merthyr Tudful Cyf, Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth, Tribiwnlys Prisio Cymru.